

CYNDELW BRYDYDD MAWR (fl. 1155-1200), pencerdd pwysicaf Cymru yn y 12fed ganrif

Enw: Cynddelw Brydydd Mawr
Plentyn: Dygynnelw ap Cynddelw
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: pencerdd pwysicaf Cymru yn y 12fed ganrif
Maes gweithgaredd: Barddoniaeth
Awdur: David Myrddin Lloyd

Cyfeirir ato gan feirdd o'r ddwy ganrif ddilynol (*The Myvyrian Archaiology of Wales*^[G], 111 A, 164 A, a 204 B) fel un o brif feistri'r canu mawl i dywysogion. Canai ar fesurau awdl ac englyn. Geilw'r gramadegwyr fesur clogyrnach yn 'ddull Cynddelw,' ac ef hefyd oedd y cyntaf hyd y gwyddom i wneud defnydd helaeth o fesur englyn unodl union. Gwelir dau draddodiad yn cyfarfod yn ei waith, sef y canu awdlau moliant a oedd yn drwm dan ddylanwad canu *Aneirin* a *Thaliesin*, a chanu englynol Powys.

Bu edliw i Gynddelw mewn canu 'amryson' (*The Myvyrian Archaiology of Wales*^[G], 154 A) yn gynnar yn ei yrfa na tharddai o linach beirdd, a chan fod *Seisyll Bryffwrch*, er mynnu ohono ei fychanu, yn cyfeirio ato fel 'Cynddelw fawr cawr cyrdd,' ymddengys iddo gael ei alw'n fawr i ddechrau oblegid mawredd corff. Bu iddo o leiaf un mab, o'r enw Dygynnelw, a laddwyd ar faes y frwydr (*The Myvyrian Archaiology of Wales*^[G], 185 A).

Dyrchafwyd Cynddelw yn bencerdd llys *Madawg ab Maredudd*, tywysog Powys (bu farw 1160), a dwy gerdd bwysicaf ei gyfnod yn y llys hwnnw oedd 'Rhieingerdd Efa,' sef merch y tywysog, a'r gyfres firain o ddeunaw englyn marwnad i *Fadawg* a'i fab Llywelyn lle y coffeir diwedd undod Powys. Yna trodd i ganu clod *Owain Gwynedd*, a gwelir ei awen yn ei hanterth ym 'Marwnad Owain' (1170). O hynny ymlaen i ddiwedd y ganrif fe'i ceir yn canu i amryw o brif dywysogion Gwynedd, Powys, a Deheubarth, ac ar un olwg, felly, Cynddelw yw bardd cyntaf Cymru gyfan, a barnu wrth yr hyn sydd ar gadw o'n barddoniaeth. Canodd awdlau hefyd i Dduw. Mawl Feifod yn bennaf yw ei 'Gân Tysiliaw.' 'Marwysgafn Cynddelw' yw ei unig gerdd grefyddol arall sydd ar gael. Ei nodwedd amlycaf yw'r 'hen gadernid moel-haearnaidd' y sonia *W. J. Gruffydd* amdano.

Yr olaf o'i weithiau y gellir ei ddyddio'i bendant yw'r englynion i *Llywelyn ab Iorwerth* (*The Myvyrian Archaiology of Wales*^[G], 189B) lle y disgrifir twf y tywysog hyd at feddiannu'r Wyddgrug ganddo yn Ionawr 1199. (Y mae lle cryf i amau awduriaeth Cynddelw o'r englynion 'Cylch Llywelyn' a geir yn y *The Myvyrian Archaiology of Wales*^[G], 175-6.) Ceir rhan o'i farwysgafn yn 'Llyfr Du Caerfyrddin,' a chynhwysir peth o'i waith yn Peniarth MS. 3, sydd hefyd yn perthyn i hanner cyntaf y 13eg ganrif. Ceir y rhan fwyaf a gadwyd o waith Cynddelw yn Llsgr. Hendregadredd, rhan helaeth ohono hefyd yn 'Llyfr Coch Hergest,' a chrynhwyd y cwbl sydd ar gael i'r *Myv. Arch.*

Awdur

David Myrddin Lloyd, (1909 - 1981)

Ffynonellau

T. Stephens, *The literature of the Kymry being a critical essay on the history of the language and literature of Wales* (London 1876)

Collections Historical and Archaeological relating to Montgomeryshire, xi

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest* (London 1911), Cyf. I

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest* (London 1911), Cyf. II

P. Barbier, *The Age of Owain Gwynedd an attempt at a connected account of the history of Wales from December, 1135, to November, 1170* (Llundain 1908)

E. Anwyl, 'Classics Welsh. Lit.', yn *Young Wales a national magazine for Wales*, 1898-1901

Saunders Lewis, *Braslun o Hanes Llenyddiaeth Gymraeg* (1932)

J. Morris-Jones, *Cerdd Dafod sef celfyddyd barddoniaeth Gymraeg* (Rhydychen 1925)

J. Vendryes, *La Poésie Galloise des XII et XIII Siècles dans ses rapports avec la langue ... The Zaharoff Lecture, 1930* (Rhydychen 1930)

T. Gwynn Jones, *Rhieingerddi'r Gogynfeirdd* (Dinbych 1915)

D. M. Lloyd, 'Barddoniaeth Cynddelw...', yn *Y Llenor: cylchgrawn chwarterol dan nawdd cymdeithasau Cymraeg y colegau*

cedlaethol, xi, xiii, a *Bulletin of the Board of Celtic Studies*, vi, vii
J. Lloyd-Jones, *Geirfa Barddoniaeth Gynnar Gymraeg* (1931) ..., iii, 245-6

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Cynddelw Brydydd Mawr](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [228858773](#)

Wikidata: [Q3399888](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

